



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



# Canllaw cyflogwr i brentisiaethau

mewn iechyd a gofal cymdeithasol  
a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

---

## Manylion cyswllt

### Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Ffacs: 029 2038 4764

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: [gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru)

**[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)**



@GofCymdeithasol

© 2017 **Gofal Cymdeithasol Cymru**

ISBN: 978-1-911463-41-2

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatad ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhychu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

### Fformatau eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn pront bras neu fformatau eraill os oes angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

# Pam darllen y canllaw hwn?

---

Mae recriwtio staff newydd yn hanfodol i sicrhau gweithlu iechyd a gofal, a blynyddoedd cynnar a gofal plant medrus, cymwys a hyderus ar gyfer y dyfodol. Mae prentisiaethau yn uchel ar agenda Llywodraeth Cymru fel rhaglen i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a sgiliau. Maen nhw'n cynnig cyfleoedd i chi hyfforddi cyflogeion newydd neu bresennol i safonau'r diwydiant, wedi'i ariannu gan y llywodraeth. Ac, ar gyfer dysgwyr, mae cyfle i ddatblygu llwybr gyrfa gwerth chweil, hirdymor mewn sector sy'n tyfu.

- **Mae gan cyflogwyr llwyddiannus mewn iechyd, gofal cymdeithasol, a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ymagwedd glir at ddatblygu eu staff.** Maen nhw'n cydnabod bod **staff medrus a chymwysedig** yn gwneud gwahaniaeth i **berfformiad** eu busnes, ac yn rhoi **mantais** iddynt dros eu cystadleuwyr.
- Mae **prentisiaethau'n** cynnig cyfle i chi recriwtio staff newydd a'u hyfforddi nhw neu roi cyfle i'ch staff eich hun hyfforddi tuag at y **cymhwysterau cenedlaethol gofynnol neu argymelledig**<sup>1</sup> fel rhan o raglen a **ddatblygom** gan ystyried anghenion a heriau'r sector iechyd a gofal. Staff presennol sydd wedi bod yn eu swydd (neu rôl newydd) am lai na 12 mis yn unig all gyrchu cyllid.
- Mae'r canllaw hwn yn rhoi **trosolwg** i chi o gynnwys a strwythur rhaglenni prentisiaethau iechyd a gofal, a rhestr wirio ynghylch sut i gymryd rhan, sy'n ganllaw arfer da sy'n cynorthwyo'r cyflogwr a'r prentis.
- Mae'r canllaw hwn yn disgrifio **buddion** cael cynllun prentisiaethau mewn unrhyw fusnes, a beth y gall ei gynnig, ac mae'n amlinellu'r ffordd y gallwch chi, fel cyflogwyr, **helpu eich prentis i lwyddo**.
- Mae gennym ni nifer o hyrwyddwyr prentisiaethau sy'n gyflogwyr, sy'n defnyddio prentisiaethau i recriwtio a/neu hyfforddi eu staff. Gallan nhw eich helpu chi i ddeall sut i ddefnyddio'r cynllun, a rhoi ychydig o gyngor i chi ar sut i wneud y mwyaf ohono.

---

<sup>1</sup> Fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.  
Rhestr o gymwysterau i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru

# Rhestr wirio

Tasg	Gweithrediadau pellach
Recriwtio	Cysylltwch â'ch darparwr dysgu i ofyn am le hyfforddi prentisiaeth, a gwirio pryd fydd lle ar gael.
Dewis eich darparwr dysgu	Mae'r pecyn gwybodaeth i gyflogwyr <sup>2</sup> , a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, yn rhoi awgrymiadau defnyddiol ar sut i benderfynu pa ddarparwr dysgu fydd yn fwyaf addas ar gyfer eich anghenion. Bydd eich darparwr dysgu yn eich helpu chi gyda'r opsiynau cyllido amrywiol sydd ar gael.
Cynllun Recriwtiaid Ifanc	Cysylltwch â Busnes Cymru <sup>3</sup> i gael mwy o wybodaeth neu ffoniwch y llinell gymorth ar 0300 6 03000
Hyfforddeiaethau	I gael mwy o wybodaeth am hyfforddeiaethau a chymhwyster, gweler y daflen ffeithiau syml ar hyfforddeiaethau ar <a href="http://www.gyrfacymru.com/employers/upload/pdf/Traineeships_Factsheet_English_Amended.pdf">http://www.gyrfacymru.com/employers/upload/pdf/Traineeships_Factsheet_English_Amended.pdf</a>
Gwasanaeth Paru Gyrfa Cymru	Cysylltwch â Gyrfa Cymru <sup>4</sup> i ymuno â'r gwasanaeth paru prentisiaethau i'ch helpu chi i hysbysebu ar gyfer prentisiaid newydd.
Paratoi'r hysbyseb	Defnyddiwch y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i bennu'r cymwyseddau rydych chi eu hangen (gweler Defnyddio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol <sup>5</sup> gan Gofal Cymdeithasol Cymru). Hyperddolen
Yn ystod eich cyfweiliad a'r broses recriwtio	Gwnewch yn siŵr y cewch wybod gan eich darparwr dysgu beth yw'r gofynion hanfodol i gyrchu hyfforddiant prentisiaethau. Efallai yr hoffech gynnwys eich darparwr dysgu yn y broses ddehol. Ystyriwch gynnal asesiad cychwynnol o lythrennedd.
Ar ôl penodi prentis	Amlygwch fentor i weithio gyda'ch prentis. Lluniwch gynllun gwaith unigol a fydd yn cynnwys y gwaith (a'r dysgu) y bydd yn ei wneud a phryd y bydd yn ei wneud. Dylech gynnwys hyfforddiant gorfodol ac ymsefydlu, a gwnewch yn siŵr bod y darparwr dysgu'n gwybod beth sy'n cael ei gyflwyno a phryd. Gweithiwch gyda'r darparwr dysgu i amlygu pa unedau dewisol y bydd eich recriwt yn eu gwneud yn seiliedig ar y cynllun gwaith, a'r rolau y bydd yn eu cyflawni.
Adolygu cynnydd	Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod pa mor dda y mae eich prentis yn ei wneud trwy gydol ei amser gyda chi. Cadwch mewn cysylltiad â'r darparwr dysgu i wirio cynnydd.
Hawlio eich Grantiau Recriwtiaid Ifanc	Rhaid eich bod chi wedi cofrestru ac wedi cytuno ar grant recriwtiaid ifanc cyn gynted â phosibl ar ôl i'ch prentis ddechrau. Byddwch yn hawlio eich arian bob 13 wythnos (ôl-ddyledus) trwy'r broses a anfonwyd gyda'ch ffurflen cytundeb.

<sup>2</sup> [gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu](http://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu)

<sup>3</sup> [www.businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/cymorth-recriwtio](http://www.businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/cymorth-recriwtio)

<sup>4</sup> [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)

<sup>5</sup> [gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

# Sut gall prentisiaethau helpu eich busnes i dyfu?

---

Mae recriwtio prentisiaid yn fuddsoddiad yn nyfodol eich cwmni. Gall bod ar raglen prentisiaethau cynyddu lefel bodlonrwydd swydd cyflogai, a'i wneud yn llai tebygol o chwilio am gyfleodd gwaith mewn man arall, a lleihau eich costau recriwtio a throsiant yn y tymor hwy.

## Buddion i gyflogwyr

- Gall prentisiaethau wneud gweithleoedd yn fwy cynhyrchiol a phroffidiol. Gallant gyflwyno sgiliau a syniadau newydd a herio arferion hirsefydlog.
- Gall prentisiaethau fynd i'r afael yn effeithiol â'r bylchau mewn sgiliau yn strategaethau'r gweithlu presennol a'r dyfodol.
- Mae prentisiaid yn cynnig ffordd gost-effeithiol, risg isel i gyflogwyr gynyddu'r gweithlu.
- Mae cymorth a chyllid y llywodraeth ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu.
- Gall cyflogwyr greu a rheoli rhaglen prentisiaethau cyfan gwbl deilwredig, sy'n bodloni anghenion eu busnesau.
- Gall cyflogwyr elwa ar weithlu mwy brwdfrydig, gwybodus a chymwys.

## Buddion i brentisiaid

- Gall prentisiaid ennill cyflog wrth dderbyn hyfforddiant, ennill cymwysterau a dysgu sgiliau penodol i swydd.
- Gall prentisiaethau gynnig cam cyntaf ar lwybr gyrfa mewn iechyd a gofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, ar draws ystod eang o rolau a chyflogwyr.
- Mae prentisiaid yn cymryd rhan mewn llwybr datblygu strwythuredig, sydd yn aml yn arwain at yrfa gwerth chweil, hirdymor, yn y sectorau iechyd a gofal cynyddol.
- Gall cyflogeion presennol ddechrau prentisiaeth fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus (os ydynt wedi bod yn y rôl am lai nag 12 mis), a gall cyflogeion newydd gael eu recriwtio'n syth i raglen prentisiaethau o'r ysgol, coleg neu broffesiwn arall hyd yn oed.
- Mae prentisiaethau yng Nghymru ar gyfer pobl o bob oed.

---

## Pwy yw prentisiaid?

Mae prentisiaid yn gweithio fel cyflogeion ochr yn ochr â staff profiadol, i ennill sgiliau penodol i swydd, wrth weithio tuag at nifer o gymwysterau ac ennill profiad. Y cyfan wrth gael eu talu.

Mae prentisiaeth yn rhaglen ddysgu yn y gwaith, wedi'i dylunio'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr, sy'n arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n bodloni gofynion rheoleiddio. Mae ar gael i unrhyw un sy'n 16 oed a hŷn, ac mae'n cynnwys elfen cymhwysedd ymarferol, hyfforddi yn y gwaith, a dysgu heb fod yn y gwaith, sy'n cynnwys cyfathrebu, gan ddefnyddio rhifau a llythrennedd digidol.

Gallant fod yn bobl y byddwch yn eu recriwtio trwy'r Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, darparwyr dysgu, neu trwy hysbysebu ar-lein neu mewn papurau lleol.

Gallant fod yn aelodau presennol o staff sydd eisiau ennill y cymwysterau gofynnol neu argymelledig ar gyfer eu rôl bresennol neu rôl swydd newydd (e.e. yn dilyn dyrchafiad, os ydynt wedi bod yn y swydd honno am 12 mis neu lai pan fyddant yn dechrau'r rhaglen).

## Recriwtio pobl ifanc

Gall prentisiaethau fod yn ysgogol iawn i bobl ifanc sy'n dechrau yn y sector iechyd a gofal. Maen nhw'n rhoi cyfle i gyflawni'r cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, yr un pryd ag ennill profiad gwerthfawr o'ch sefydliad a'r ffordd y caiff pethau eu gwneud yn eich sefydliad. Rhaid talu prentisiaid sy'n iau nag 19 oed, neu sydd ym mlwyddyn gyntaf prentisiaeth, yr isafswm lwfans hyfforddi o leiaf. Rhaid talu'r rheiny sy'n hŷn nag 19 oed, sydd wedi cwblhau o leiaf un flwyddyn o'u prentisiaeth, yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol llawn sy'n berthnasol ar gyfer eu hoedran, a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer pobl dros 25 - oed.

Yn aml, tybir bod prentisiaid yn bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol. Gall prentisiaid yng Nghymru fod unrhyw oed, ac mae ychydig o gymorth ar gael i fusnesau dderbyn prentis sydd wedi cael ei wneud yn ddi-waith o'i swydd ddiwethaf, trwy'n cynllun ReAct <sup>6</sup>. Mae gan y sector iechyd a gofal brentisiaid o 16 oed i 60+ oed.

Mae prentisiaethau wedi bod yn rhan mor werthfawr o raglen datblygu staff i gyflogwyr, maen nhw wedi eu hymgorffori yn y portffolio o gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i'w staff. Yn y sefyllfa hon, bydd y darparwyr dysgu yn darparu'r hyfforddiant ar gyfer eich prentis, ond byddwch chi, fel y cyflogwr, yn parhau i dalu'r aelod o staff ar ei delerau ac amodau presennol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i chi aros hyd nes bod gan ddarparwr dysgu le ar un o'i gynlluniau ar gyfer eich staff, felly mae'n well cysylltu'n gynnar.

---

<sup>6</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/reactemployers/?skip=1&lang=cy>

---

## Awgrym ymarferol:

**Fel cyflogwr, mae cael sgiliau cyfweld da yn hanfodol, ac mae bod yn barod yn allweddol i recriwtio'r unigolyn cywir yn llwyddiannus.**

### Beth mae prentisiaid yn ei gyflawni?

Bydd prentisiaid yn ennill y cymwysterau, y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich tîm staff. Dyma'r cymwysterau a'r sgiliau y bydd arnynt eu hangen ar gyfer gyrfa ym maes iechyd, gofal cymdeithasol neu ofal, dysgu a datblygu plant. Byddant yn:

- cwblhau'r diploma sy'n addas ar gyfer y swydd, naill ai ar lefel 2 neu lefel 3. Dyma'r cymwysterau gofynnol neu argymelledig o dan ddeddfwriaeth a rheoliad Cymru.
- cael cyfle i gwblhau'r rhaglen ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog<sup>7</sup>.
- gwella eu sgiliau cyfathrebu, cymhwyso rhifau a llythrennedd digidol, ac ennill Cymwysterau Sgiliau Hanfodol<sup>8</sup>.
- cael cynnig rhwng 210 a 280 o oriau hyfforddi 'heb fod yn y gwaith' gan y darparwr dysgu, neu efallai gwneud ychydig o hyn trwy eich hyfforddiant mewnol e.e. codi a chario, diogelwch tân, iechyd a diogelwch ac ati. (Yn nodweddiadol, mae hyn yn ymwneud â'r Cymwysterau Sgiliau Hanfodol uchod.) Mae 'heb fod yn y gwaith' yn golygu nad yw'r cyflogai'n gweithio sifft, ond dylai gael ei dalu am yr oriau hyn.
- cael rhwng 1,480 a 2,000 awr (gan ddibynnu ar y brentisiaeth a'r lefel) o brofiad gwaith gwirioneddol yn eich sefydliad pan fyddant yn cyflawni'r tasgau gofalu arferol a'u cymhwysedd yn cael ei asesu.
- derbyn y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer eu swydd gennych chi, fel y cyflogwr, a'ch staff (yn ogystal â chymorth ac asesu gan y coleg neu'r darparwr dysgu).

---

<sup>7</sup> [gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu](http://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu)

<sup>8</sup> <http://qualificationswales.org/qualifications/essential-skills-qualifications/?lang=en>

---

## Beth yw rôl cyflogwyr yn y rhaglen prentisiaeth?

Mae eich busnes yn ganolog i ddysgu a datblygu eich prentis. Ar ddechrau'r broses, bydd angen i chi gytuno â'r darparwr dysgu sut bydd y lleoliad a'r hyfforddiant yn helpu profiad dysgu a chynnydd y prentisiaid.

yma rai pethau y gallwch chi eu gwneud i wneud gwahaniaeth gwirioneddol:

### Recriwtio

Mae rhai darparwyr dysgu'n recriwtio prentisiaid ac yna'n cysylltu â chyflogwyr. Ni chaniateir hyn mwyach, a bydd angen i chi gymryd rheolaeth dros recriwtio eich prentisiaid eich hun.

### Awgrym ymarferol:

#### Sut ydych chi'n dethol darparwr dysgu?

#### Bwrwch olwg ar Becyn Gwybodaeth i Gyflogwyr ar gyfer Dysgu ac Asesu yng Nghymru.<sup>9</sup>

Mae'r canllaw arfer gorau hwn yn amlygu disgwyliadau ac arfer gorau o ran cyflwyno ac asesu cymwysterau a hyfforddiant yn y sector gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

### Llywodraeth Cymru – Hyfforddeiaethau<sup>10</sup>

<http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/traineeships/?lang=en>

Mae'r rhaglen hyfforddeiaethau wedi'i hanelu at bobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn cyflogaeth (gall pobl ifanc 18 oed gymwys gymryd rhan hefyd).

Rhaglen 10 wythnos o hyd yw hon i ddechrau, ar gyfer pobl nad ydynt siŵr a ydynt eisiau gweithio yn y sector, a gallwch benderfynu a fyddwch chi eisiau derbyn pobl bryd hyn ai peidio. Gall y darpar hyfforddai dderbyn lwfans hyfforddi gan Lywodraeth Cymru am y cyfnod o 10 wythnos.

Gallai'r hyfforddai wedyn gyflawni Hyfforddeiaeth lefel 1, gan gwblhau Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol (oedolion, plant a phobl ifanc), y blynyddoedd cynnar a gofal plant (Cymru a Gogledd Iwerddon) lefel 1 (gwobr neu dystysgrif). Mae hon yn rhaglen ddysgu wyth wythnos o hyd, a phrofiad gwaith i ddilyn, ac maent yn derbyn lwfans hyfforddi gan Lywodraeth Cymru.

---

<sup>9</sup> [gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu](http://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu)

<sup>10</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/traineeships/?lang=en>



---

## Recriwtio eich prentis: Gwasanaeth Paru Prentisiaeth Gyrfa Cymru<sup>11</sup>

Os ydych chi eisiau recriwtio prentis, gall cyflogwyr gysylltu â Gyrfa Cymru i ymuno â'r gwasanaeth paru, neu gallwch ddefnyddio universal jobmatch.

Fel cyflogwr, cewch gyngor a chymorth â'r broses recriwtio gan ddarparwr dysgu, os byddwch angen.

## Cyllid ar gyfer hyfforddiant: arweinwyr a rheolwyr

Level 5 Professional Frameworks in:

- Fframweithiau Proffesiynol Lefel 5 mewn:
- Uwch Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys llwybrau i bobl sy'n gweithio ym maes Gofal Oedolion, a Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc)
- Arweinyddiaeth mewn Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys llwybrau mewn Rheoli Gofal Oedolion, a Gofal Plant a Phobl Ifanc, a Rheoli Gofal Preswyl; Gofal Oedolion neu Ofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc)
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth Dysgu a Datblygu Gofal Plant (gan gynnwys llwybrau mewn Uwch Ymarfer a Rheoli)
- Caiff y fframweithiau hyn eu hariannu ac maent yn cynnig datblygu proffesiynol ar gyfer gweithwyr lefel 3, ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu ac uwchsgilio staff presennol i rolau rheoli, lle bydd ganddynt fynediad at weithgareddau a fydd yn eu galluogi nhw i ddarparu'r dystiolaeth ofynnol o gymhwysedd.

## Y camau nesaf

Siaradwch â'ch darparwr dysgu am eich rhaglenni hyfforddi mewnol, a gwnewch yn siŵr y byddant yn cael eu hystyried wrth lunio rhaglen eich prentis.

Trafodwch rôl waith eich prentis gyda'r darparwr dysgu a sicrhewch fod yr unedau dewisol a ddewiswyd yn iawn ar gyfer eich cyflogai a'ch busnes.

Darllenwch unrhyw wybodaeth y mae'r darparwr dysgu yn ei rhoi i chi am y rhaglen prentisiaethau, a'i thrafod gyda'ch prentis. Gall rhai meysydd y bydd y prentis yn ymdrin â nhw fod o fudd i'ch busnes a gellir eu rhannu â staff eraill.

Os nad ydych chi'n gweithio'n agos â'r prentis, siaradwch â'i reolwr llinell a gwnewch yn siŵr ei fod yn gyfarwydd â gofynion y rhaglen ac yn deall y ffordd orau i gynorthwyo'r prentis a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r holl bersonél.

Mae'n arfer da i'r prentis gael mentor mewnol i weithio mewn partneriaeth â'r darparwr dysgu.

Mae'n hanfodol bod rhaglen eich prentis wedi cael ei llunio gan ystyried ei rôl waith a'r cyfleoedd hyfforddi sydd eisoes ar gael. Trafodwch gyfleoedd i'r prentis weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Mae cyfathrebu'n hanfodol.

---

<sup>11</sup> <https://www.careerswales.com/employers>

## Hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant y byddwch yn ei ddarparu yn eich gweithle yn rhan bwysig o raglen y prentis. Yn y gweithle, mae prentisiaid yn datblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a gallant roi ar waith beth y byddant yn ei ddysgu mewn unrhyw sesiynau hyfforddi heb fod yn y gwaith. Mae hyfforddiant da yn y gwaith yn nodwedd hanfodol o brentisiaeth. Gwnewch yn siwr bod gan eich prentis fynediad at gyfleoedd hyfforddi mewnol, gan gynnwys hyfforddiant statudol ac ymsefydlu, sy'n ychwanegu gwerth at eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae angen i'r cyflogwr drafod ffyrdd y gall gynorthwyo'r prentis i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol gyda'r darparwr dysgu neu gyda rheolwr llinell y prentis. Gall hyn olygu adolygu rôl waith y prentis i sicrhau eu bod yn ennill profiad mewn adrannau gwahanol o'r sefydliad, yn cyflawni tasgau gwahanol.

## Awgrym ymarferol:

### Bwrwch olwg ar y trosolwg o unedau'r Diploma.<sup>12</sup>

y bydd y prentis yn gweithio tuag atynt. Amlygwch unrhyw feysydd nad ydynt yn digwydd yn rheolaidd ac efallai y bydd angen ychydig o gynllunio i alluogi'r prentis i arddangos ei gymhwysedd. Amlygwch unrhyw feysydd arbenigol rydych chi'n meddwl y byddai'n elwa ar eich gwasanaeth neu'r prentis o ran ei ddysgu a datblygu. Trafodwch hyn gyda'ch darparwr dysgu a/neu reolwr llinell y prentis i ddarganfod y ffordd orau i fynd i'r afael â hyn.

## Awgrym ymarferol:

### Trafodwch ffyrdd y gall staff yn y lleoliad sy'n siarad Cymraeg annog sgiliau cyfathrebu'r prentis yn y Gymraeg ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid yn y dyfodol.

Mae Mwy na geiriau<sup>13</sup>, Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol, yn gofyn i ddarparwyr wneud yn siwr eu bod nhw'n gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn weithredol, i'r un safon â gwasanaethau gofal Saesneg.

Ystyriwch gysylltu â sefydliadau sy'n darparu rhaglenni Cymraeg i ddysgwyr. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Learn Cymraeg<sup>14</sup>.

Byddwch yn ymwybodol y bydd hi'n ofynnol i brentisiaid fynychu sesiynau hyfforddi wrth iddynt gwblhau eu rhaglen. Mewn dysgu a datblygu iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, mae'n amrywio o 200 awr i 240 awr, gan ddibynnu ar y fframwaith a'r lefel y caiff ei chwblhau. Gofynnwch i'ch darparwr dysgu beth fydd y rhain yn eu cynnwys. Bydd y sesiynau'n cael eu cynllunio ymlaen llaw ac mae mynychu'n hanfodol, oherwydd y bydd yn ategu gwybodaeth greiddiol unedau'r diploma.

Mae ar brentisiaid angen amser neilltuedig yn y gweithle i drafod eu portffolio o dystiolaeth gyda'u mentor. Lle y bo'n briodol, trafodwch hyn gyda rheolwr llinell y prentis ac amlygwch gyfnodau tawel a lleoliad addas lle gall eich prentis gwblhau'r gwaith hwn.

<sup>12</sup> [gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu](http://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu)

<sup>13</sup> <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

<sup>14</sup> <http://www.learnymraeg.org/>

Rhaid neilltuo amser hefyd i ganiatáu prentisiaid i arddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac i aseswyr brofi eu cymhwysedd.

Mae gofyniad hefyd i gwblhau prawf ar-lein ar gyfer cyfathrebu, cymhwyso rhifau a llythrennedd digidol. Mae Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)<sup>15</sup> yn ddwyieithog ac yn cynorthwyo ymagwedd gyson at asesu a dysgu Sgiliau Hanfodol.

### **Awgrym ymarferol:**

**Ystyriwch gynorthwyo rhai o'ch staff mwy profiadol i hyfforddi fel aseswyr yn y gwaith. Mae hwn yn gyfle datblygu staff da iddyn nhw, yn ogystal â chynyddu'r cymorth ar gyfer eich prentisiaid.**

I gael mwy o wybodaeth am hyfforddiant aseswyr, cysylltwch â'ch coleg neu ddarparwr hyfforddiant lleol.

### **Darparu adborth a chymryd rhan mewn adolygiadau cynnydd**

Ystyriwch amlygu cydweithiwr mwy profiadol a all weithredu fel mentor/bydi i'r prentis i'w ddarparu â chymorth parhaus yn y gweithle.

Gwnewch yn siwr bod cynrychiolydd (mentor/bydi) yn neilltuo amser yn ei ddyddiadur ei hun i sgwrsio â'r prentis am ei gynnydd a'r meysydd lle all fod angen help. Gofynnwch gwestiynau am ei waith a rhowch anogaeth. Cydnabyddwch ei gyflawniadau. Edrychwch ar y targedau sydd wedi cael eu gosod ar gyfer y prentis yn yr adolygiad diwethaf i weld a yw popeth yn mynd yn ôl y cynllun.

Bydd angen i brentisiaid gael adolygiadau cynnydd rheolaidd gyda'r darparwr dysgu a sicrhau eich bod chi, neu gydweithiwr penodol, yn bresennol bob tro y caiff prentis adolygiad cynnydd gyda'r hyfforddwr/aseswr. Dylai cyfraniadau gan y cyflogwr amlygu cynnydd a chyflawniadau'r prentis.

### **Awgrym ymarferol:**

**Mae rhaglenni prentisiaethau yn annog gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â chyflogwyr.**

Rhowch yn eich dyddiadur ddyddiadau ac amserau'r adolygiadau cynnydd. Os oes angen i chi ail-drafod trefniadau'r adolygiadau gyda'r darparwr dysgu, gwnewch hynny. Mae hyn llawer yn well na pheidio â bod yn bresennol o gwbl.

### **Cofiwch**

Mae gennych chi, fel cyflogwr, a'r darparwr dysgu, rwymedigaeth i sicrhau bod prentisiaid yn gweithio mewn amgylchedd diogel, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad, a bod gennych chi yswiriant priodol.

Fel cyflogwr, eich cyfrifoldeb chi yw darparu hyfforddiant gorfodol (cyfeiriwch at y fframwaith i gael mwy o fanylion).

<sup>15</sup> <https://www.walesessentialskills.com/?q=node/6&clear-cookie=true>

---

## Sut i gymryd rhan yn y cynllun prentisiaethau?

**Bydd prentisiaethau'n ategu'r hyfforddiant mewnol a gynigir gan gyflogwyr yn ein sector. Mae angen i gyflogwyr gymryd ychydig o reolaeth dros raglenni prentisiaethau a'u defnyddio nhw'n ddychmygus a chreadigol i lenwi bylchau mewn sgiliau a gwybodaeth, cynorthwyo gyda recriwtio a chadw, a darparu cyfleoedd i hyfforddi staff presennol.**

1. Os ydych chi'n awyddus i gymryd rhan mewn rhaglen prentisiaethau, cysylltwch â 'Sgiliau Pobl Llwyddiant'<sup>16</sup> i gael pecyn gwybodaeth ar brentisiaethau yng Nghymru ar 0845 6066160 neu anfonwch neges e-bost at [info@skillspeoplesuccess.com](mailto:info@skillspeoplesuccess.com).
2. Gallwch weithio gyda darparwr dysgu lleol, naill ai mewn coleg neu o restr o gwmnïau preifat, i recriwtio prentis addas gyda'ch gilydd. Mae rhestr o ddarparwyr hyfforddiant neu golegau lleol wedi'u contractio gan Lywodraeth Cymru i gynnig y gwasanaeth hwn ar wefan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.<sup>17</sup>
3. Cysylltwch â darparwr dysgu (neu siaradwch â sawl un, a phenderfynwch pa un sy'n bodloni eich anghenion orau) a threfnwch drafodaeth ar brentisiaethau a beth y gall ei wneud ar gyfer eich busnes chi. Cytunwch ar drefniant partneriaeth sy'n gweithio i chi. Gofynnwch am wybodaeth am y cyllid a'r trefniadau ar gyfer cytuno ar yr amrywiaeth o unedau (gwybodaeth a sgiliau) rydych chi eisïau i'r unigolyn eu cwblhau i ategu anghenion sgiliau eich grŵp o staff.

Ar gyfer rhywun sy'n iau nag 19 oed neu sydd ym mlwyddyn gyntaf eu prentisiaeth, rhaid i chi dalu'r isafswm lwfans hyfforddi cytûn o leiaf am y 12 mis cyntaf, yna'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol<sup>18</sup> ar gyfer oedran yr unigolyn. Mae'r Isafswm Cyflog Isafswm yn gymwys i bobl dros 19 oed hefyd.

Bydd y darparwr dysgu yn darparu costau hyfforddi ac asesu'r unigolyn hwnnw. Os bydd eich recriwt rhwng 16 oed a 24 oed, efallai y bydd gennych hawl i £2,600 y flwyddyn i gynorthwyo'r prentis o ran y rhaglen Recriwt Newydd, ond rhaid i chi gofrestru ar gyfer y cynllun o fewn 20 wythnos ar ôl i'r prentis ddechrau (cofrestru'n gynnar yw'r cyngor gorau). Byddwch yn derbyn y lwfans (os byddwch yn gymwys), fel ôl-daliad o 13 wythnos.

### Awgrym ymarferol:

**Gwnewch yn siwr bod yr holl waith papur yn cael ei lungopïo a'i anfon trwy ddsbarthiad wedi'i gofnodi ar gyfer eich cofnodion eich hun.**

---

<sup>16</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/skillspeoplesuccess/firsttimers/?skip=1&lang=cy>

<sup>17</sup> <https://www.ntfw.org/>

<sup>18</sup> <https://www.gov.uk/national-minimum-wage/who-gets-the-minimum-wage>

---

## **Am wybod beth sydd gan gyflogwyr a phrentisiaid i'w ddweud am eu profiad o brentisiaethau?**

### **Astudiaeth achos**

Amy Louise Kemshell, ymarferydd meithrinfa  
[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

### **Podlediad**

Ann Farr, aseswr prentisiaeth (hyperddolen)  
[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

### **Podlediad**

Rosie a Loren, prentisiaeth ymarferwyr meithrin  
<https://soundcloud.com/charmine-smikle/wyngarth-rosie-and-lauren>

### **Podlediad**

James Brown, ymarferydd gofal  
<https://soundcloud.com/charmine-smikle/james-bowen-national>

### **Social Care Wales TV (YouTube clips)**

Safbwyntiau cyflogwyr ar brentisiaethau  
[https://www.youtube.com/playlist?list=PLEZj8vabV3cvjYE8Xs\\_g0zKErC3cf9uKK](https://www.youtube.com/playlist?list=PLEZj8vabV3cvjYE8Xs_g0zKErC3cf9uKK)

## **Hyrwyddwyr cyflogwyr prentisiaethau**

Nod hyrwyddwyr cyflogwyr prentisiaethau yw annog a chynyddu cyfranogiad, a rhannu arfer da gyda chyflogwyr eraill yn y sector. Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru dîm o hyrwyddwyr cyflogwyr profiadol ledled Cymru erbyn hyn, sy'n arbenigo yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a phlant a'r blynyddoedd cynnar. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn siarad â hyrwyddwr cyflogwyr, cysylltwch â ni drwy ein gwefan.

Gwylwch ein fideo gan gyflogwyr a phrentisiaid ar YouTube [https://www.youtube.com/playlist?list=PLEZj8vabV3cvjYE8Xs\\_g0zKErC3cf9uKK](https://www.youtube.com/playlist?list=PLEZj8vabV3cvjYE8Xs_g0zKErC3cf9uKK) sy'n dangos hyrwyddwyr cyflogwyr yn siarad am sut mae cynnal cynlluniau prentisiaethau wedi bod o fudd i'w busnesau, eu gweithwyr a'r bobl sydd angen gofal a chymorth.

# Gwybodaeth ar gyllid a ffynonellau cyngor pellach

---

## Cyllid:

### Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

Mae Cynnydd ar gyfer Llwyddiant<sup>19</sup> yn gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer cyflogwyr gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant neu chwarae, sydd eisiau cynyddu sgiliau'r rheiny â chymwysterau sy'n is na lefel 3. Cysylltwch â Busnes Cymru<sup>20</sup> i gael mwy o wybodaeth, neu ffoniwch y llinell gymorth ar 03000 6 03000.

### SEE (Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr)

Os ydych chi'n gweithredu yng ngogledd Cymru (Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn), mae eich cyflogeion yn gymwys i dderbyn cymorth SEE. Cysylltwch â Busnes Cymru i gael mwy o wybodaeth neu ffoniwch y llinell gymorth ar 03000 6 03000.

### ReAct

Mae cyllid ar gael i'ch busnes os yw'r unigolyn rydych chi'n dymuno ei recriwtio naill ai o dan hysbysiad ffurfiol o ddiswyddiad neu wedi dod yn ddi-waith o fewn y tri mis diwethaf yn sgil cael ei ddiswyddo. Rhaid bod yn unigolyn yn byw yng Nghymru ar yr adeg y daeth yn gymwys yn wreiddiol ar gyfer ReAct. Cysylltwch â'r Tîm Cyflwyno Sgiliau<sup>21</sup> i gael mwy o wybodaeth.

### Ardoll Brentisiaethau<sup>22</sup>

Mae'r Ardoll Brentisiaethau yn dreth cyflogaeth Llywodraeth y DU a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2017. Caiff ei chyflwyno ym Mil Cyllid 2016.

Bydd yn cael ei chasglu ar draws y DU gyfan. Bydd pob cyflogwr (cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector) sydd â bil cyflog o fwy na £3 miliwn y flwyddyn yn talu'r ardoll hon. Cyfradd yr ardoll yw 0.5% o fil cyflog; mae lwfans o £15,000 y flwyddyn, sy'n golygu mai'r cyfanswm fydd angen i chi ei wario yw 0.5% o'ch bil cyflog, llai £15,000. Caiff yr ardoll ei thalu i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi trwy'r broses PAYE.

---

<sup>19</sup> <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/progress-success>

<sup>20</sup> <https://businesswales.gov.wales/cy>

<sup>21</sup> <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/reactemployers/?skip=1&lang=cy>

<sup>22</sup> <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/ardoll-prentisiaethau>

---

## **Dolenni cyflym i ffynonellau cyngor pellach:**

### **Gofal Cymdeithasol Cymru, Prentisiaethau**

[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

### **Gofal Cymdeithasol Cymru, Canllaw profiad gwaith**

[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

### **Gyrfa Cymru, Gwasanaeth Paru Prentisiaethau**

[www.careerswales.com/employers/server.php?show=nav.6563](http://www.careerswales.com/employers/server.php?show=nav.6563)

### **Directgov, Isafswm Cyflog Cenedlaethol**

[www.direct.gov.uk/en/Employment/Employees/Pay/DG\\_10027201](http://www.direct.gov.uk/en/Employment/Employees/Pay/DG_10027201)

### **Learn Cymraeg**

[www.learn-cymraeg.org](http://www.learn-cymraeg.org)

### **Llywodraeth Cymru, Sgiliau Pobl Llwyddiant**

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/skillspeoplesuccess/firsttimers/?lang=en>

### **Llywodraeth Cymru, Rhaglen Recriwtiaid Ifanc**

<https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/young-recruits-programme>

### **Llywodraeth Cymru, Twf Swyddi Cymru**

<https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/twf-swyddi-cymru>

### **ReAct**

<http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/reactemployers/?skip=1&lang=cy>

### **Cynnydd ar gyfer Llwyddiant**

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/progress-for-success/?skip=1&lang=cy>

### **SEE**

<https://businesswales.gov.wales/cy/blogiau/newyddion/sgiliau-ar-gyfer-cyflogwyr-gweithwyr>

### **Hyfforddeiaethau**

<http://www.careerswales.com/employers/index.php?&outputLang=Tr1>

### **Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru**

[www.ntfw.org](http://www.ntfw.org)